# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 5 Ebrill

Testun ar gyfer Dadl Fer

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Swyddogaeth Marchnadoedd Ffermwyr mewn cymunedau ffyniannus.

**NDM278**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r 'Protocol ar Ymddygiad yn y Siambr' diwygiedig a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Ebrill 2000.

**NDM279**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Cynnig bod y Cynulliad yn:

1. Croesawu'r cyfraniad pwysig y bydd rhaglen Amcan 1 yn ei wneud i adfywiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y Gorllewin a'r Cymoedd;

2. Cymeradwyo cynigion partneriaeth Cymru ac Ewrop ar gyfer y strategaeth, blaenoriaethau a mesurau dangosol ar gyfer Amcan 1 a geir yn y Ddogfen Raglennu Sengl ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Ebrill 2000.

3. Mabwysiadu'r Ddogfen Raglennu Sengl ddrafft a gofyn i'r Prif Ysgrifennydd, gan ymgynghori â phleidiau gwleidyddol eraill yn ôl y gofyn, i derfynoli'r testun ar y cyd â'r Comisiwn Ewropeaidd a sicrhau penderfyniad ffafriol o du'r Comisiwn cyn gynted â

phosib;

4. Gofyn i’r Prif Ysgrifennydd sicrhau canlyniad o Arolwg Gwariant y Deyrnas Unedig a fydd yn galluogi’r Cynulliad i ysgwyddo’i ymrwymiadau o dan y rhaglen heb amharu ar y darpariaethau cyllidol na ddônt o Ewrop;

5. Gwahodd y Prif Ysgrifennydd i gytuno ar y trefniadau angenrheidiol gyda’r bartneriaeth er mwyn i raglen Amcan 1 allu cael ei lansio cyn diwedd Gorffennaf 2000.

**NDM280**

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 7 Ebrill 2000**

**NDM280**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i’r cynnig uchod (ychwaneger gwelliannau):

**1. Phil Williams (Dwyrain De Cymru)**

Yn y fersiwn Saesneg, ym mhwynt bwled 1, dileer 'will' a rhodder 'should' yn ei le.

**2. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

Ym mhwynt bwled 2, dileer ‘cymeradwyo’ a rhodder ‘nodi’ yn ei le.

**3. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

Ym mhwynt bwled 3, dileer ‘mabwysiadu’ a rhodder 'nodi’ yn ei le.

**4. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

Ym mhwynt bwled 5, llinell 2, ychwaneger ar ôl ‘bartneriaeth’, ‘gan gynnwys trefniadau llawn ar gyfer eu rhoi ar waith yn lleol’.

**5. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

Ym mhwynt bwled 5, llinell 3, dileer ‘Gorffennaf’ a rhodder ‘Mai’ yn ei le.

**6. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**

**Mike German (Dwyrain De Cymru);**

Rhodder yn lle pwynt 4:

"Gofyn i’r Prif Ysgrifennydd sicrhau y bydd Arolwg Gwariant y Deyrnas Unedig yn esgor ar ganlyniad sy’n sicrhau y ceir arian PES ac Arian Cyfatebol angenrheidiol sydd uwchlaw’r grant Bloc Barnett a fydd yn galluogi’r Cynulliad i ysgwyddo’i ymrwymiadau o dan raglen Amcan 1 a’r hyn sy’n weddill o’r rhaglenni Strwythurol Ewropeaidd blaenorol heb amharu ar y darpariaethau cyllidol na ddônt o Ewrop ac yn galw bod yr egwyddor o ychwanegedd yn cael ei gweithredu ar y lefel Gymreig."

**7. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**

**Mike German (Dwyrain De Cymru);**

Ychwaneger:

"6. Gofyn i’r Prif Ysgrifennydd roi cefnogaeth broactif i’r cyrff hynny sydd am ddrafftio, neu sydd wrthi’n drafftio, cynlluniau gweithredu ar gyfer y rhaglen er mwyn iddynt allu dechrau ei roi ar waith cyn gynted ag y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn derbyn y Ddogfen Raglennu Sengl."

**8. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**

Ym mhwynt 5, rhoi yn lle "gwahodd":

"Gresynu’r oedi wrth sefydlu asiantaeth weithredu ac yn mynegi gofid na ellir manteisio’n llawn ar flwyddyn gyntaf y rhaglen Amcan 1 er lles y Gorllewin a’r Cymoedd oherwydd diffyg cefnogaeth Gweithrediaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a’r diffyg arian cyfatebol, a geilw ar"